Ysgol Brynhyfryd

Rhaglen Ddysgu 1 – MDAP: Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu - **CYMRAEG**

Thema: Chwedlau'r Mabinogi

Datganiadau 'Hyn sy'n bwysig':

HSB1: Mae ieithoedd yn ein cysylltu a'n gilydd

HSB4: Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd

Yr hanner tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w datblygu:

- **Sgiliau (BYDD Y MYFYRWYR YN GALLU erbyn diwedd y Rhaglen Ddysgu):**
  Bydd y myfyrwyr yn gallu datblygu eu dealltwriath o beth ydy chwedl a thraddodiad chwedlau yng Nghymru. Bydd y myfyrwyr yn gallu trawsieithu geirfa o'r chwedl wreiddiol (hen orgraff) ac yn gallu cymryd rol y cyfarwydd i berfformio chwedl. Bydd y myfyrwyr yn gallu cymharu cymeriadau gan ddangos empathi a chydymdeimlad. Bydd y myfyrwyr yn gallu ysgrifennu portread a chyfarwyddiadau.
- **Gwybodaeth (BYDD Y MYFYWYR YN GWYBOD erbyn diwedd y Rhaglen Ddysgu):**
  Bydd y myfyrwyr yn gwybod beth sy'n digwydd yn y chwedl 'Branwen Ferch Llyr' a 'Blodeuwedd'
  Bydd y myfyrwyr yn gwybod beth ydy nodweddion ysgrifennu portread a cyfarwyddiadau.
- **Dealltwriaeth (BYDD Y MYFYRWYR YN DANGOS eu dealltwriaeth):**
  Bydd y myfyrwyr yn dangos eu dealltwriaeth trwy yn dangos eu gallu i ddefnyddio eu gwybodaeth o sut mae ieithoedd yn gweithio i gefnogi eu dysgu, yn gallu defnyddio eu dychymyg ac arbrofi gyda gwahanol ffurfiau a thechnegau creadigol er mwyn creu llenyddiaeth eu hunain ac yn gallu gwerthfawrogi llenyddiaeth, gan ddangos empathi ynghyd â dealltwriaeth y gall llenyddiaeth gael ei dehongli mewn gwahanol ffyrdd

Key Terms: Chwedl, cyfarwydd, orgraff, mabinogi, cainc, cymeriadau, goruwchnaturiol, natur, arwyr

RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 1: • Bydd y myfyrwyr yn gwybod beth ydy nodweddion chwedl e.e., elfennau goruwchnaturiol, natur. • Bydd y myfyrwyr yn gwybod am bwysigrwydd Y Mabinogion a Phedair Cainc y Mabinog i'n **hunaniaith diwylliannol** ac i hanes llenyddiaeth Cymru.	Asesiad	**Meini Prawf Llwyddiant:** • Deall beth ydy chwedl a nodweddion chwedl. • Deall ysytyr geifa yn ymwuned a chwedlau Cymru e.e., cainc • Deall pwysigrwydd y Mabinogion.	**Gwaith Cartref** Dim gwaith cartref.
RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 2: • Bydd y myfyrwyr yn **dysgu am fywyd drwy lenyddiaeth** gan ddarllen chwedl Branwen Ferch Llyr • Bydd y myfyrwyr yn gwybod beth ydy swydd y cyfarwydd. • Bydd y myfyrwyr yn perfformio chwedl gan chwarae rôl y cyfarwydd. • Bydd y myfyrwyr yn **deall tarddiad nodweddion ieithyddol** ac yn cael eu cyflwyno i'r hen orgraff (hen Gymraeg).	Asesiad ACD1	**Meini Prawf Llwyddiant:** • ACD 1: Darllen a deall 'Branwen Ferch Llyr' • Dangos dealltwriath o brif ddigwyddiadau'r chwedl. • Gallu perfformio chwedl gan amrywio iaith y corff a thôn llais. • Gallu cymhwyso sgiliau trawsieithu er mwyn cefnogi dysgu ieithoedd cyfarwydd	**Gwaith Cartref** Dim gwaith cartref.
RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 3: • Bydd y myfyrwyr yn gwylio rhaglen 'Mabinogi-ogi' • Bydd y myfyrwyr yn gallu trafod addasiad y chwedl i raglen deledu. • Gloywi Iaith: Gwybod prif reolau atalnodi a phriflythrennau.	Asesiad ACD2	**Meini Prawf Llwyddiant:** • Gallu gwerthfawrogi profiad llenyddol gwahanol gan adolygu rhaglen yn feirniadol ar lafar. • ACD2: Gloywi Iaith: Gwybod prif reolau atalnodi a phriflythrennau.	**Gwaith Cartref** Dim gwaith cartref.
RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 4: • Bydd y myfyrwyr yn gwybod beth ydy nodweddion ysgrifennu portread ac yn casglu geirfa i'w defnyddio mewn portread.	Asesiad	**Meini Prawf Llwyddiant:** • Gwybod beth ydy nodweddion ysgrifennu portread. • Gallu creu banc geirfa ar gyfer portread.	**Gwaith Cartref** Taflen eirfa cymeriad (Dyn Sinsir)
RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 5: • Bydd y myfyrwyr yn **meithrin creadigrwydd** ac yn gallu **ymateb yn ddychmygus i lenyddiaeth** gan ysgrifennu portread o un o gymeriadau'r chwedl. • Bydd y myfyrwyr yn darllen chwedl Blodeuwedd.	Asesiad AC	**Meini Prawf Llwyddiant:** • Gallu defnyddio dychymyg ac arbrofi gyda gwahanol ffurfiau a thechnegau creadigol er mwyn creu fy llenyddiaeth. • AC: Portread o gymeriad • Dangos dealltwriath o brif ddigwyddiadau'r chwedl.	**Gwaith Cartref** Dim gwaith cartref.
RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 6: • Bydd y myfyrwyr yn gwybod beth ydy nodweddion ysgrifennu cyfarwyddiadau. • Bydd y myfyrwyr yn gwybod beth ydy berfau gorchmynnol a'r treiglad meddal ar ol berf orchmynnol. • Bydd y myfyrwyr yn gallu **ymateb yn ddychmygus i lenyddiaeth** trwy greu cyfarwyddiadau creu Blodeuwedd	Asesiad	**Meini Prawf Llwyddiant:** • Gallu creu cyfarwyddiadau i greu merch o flodau / Blodeuwedd • Gallu defnyddio dychymyg ac arbrofi gyda gwahanol ffurfiau a thechnegau creadigol er mwyn creu fy llenyddiaeth.	**Gwaith Cartref** Cyfarwyddiadau Creu Blodeuwedd *?
RhDd 1 – Deilliannau Dysgu Wythnos 7: • Bydd y myfyrwyr yn gallu cymharu chwedlau Blodeuwedd a Branwen **gan ddangos empathi** a gyfleu tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng y chwedlau a'r cymeriadau.	Asesiad	**Meini Prawf Llwyddiant:** • Gallu adnabod a chyfleu elfennau tebyg a gwahanol yn y ddwy chwedl a'r cymeriadau. • Gallu gwerthfawrogi llenyddiaeth, gan ddangos empathi ynghyd â dealltwriaeth y gall llenyddiaeth gael ei dehongli mewn gwahanol ffyrdd. • gallu archwilio, dadansoddi a chymharu syniadau allweddol gan ddefnyddio terminoleg briodol a chefnogi barn gyda manylion priodol o'r testun.	**Gwaith Cartref** Dim gwaith cartref.